

PENODI CYNRYCHIOLYDD

i wneud penderfyniadau ynglŷn â rhoi organau ar eich rhan

Mae'r ffurflen hon yn eich galluogi chi i benodi Cynrychiolydd i wneud penderfyniadau ynglŷn â rhoi organau ar eich rhan os ydych chi'n marw mewn sefyllfa lle mae modd i chi roi organau.

Gallwch gofnodi hyd at ddau Gynrychiolydd Penodedig ar Gofrestr Rhoi Organau'r GIG.

Os ydych chi'n penderfynu cofnodi dau Gynrychiolydd, bydd eu barn yn cael ei ystyried yn gyfartal.

Mae hyn yn golygu nad oes ots ym mha drefn y maent yn cael eu cofnodi isod, bydd barn y ddau yr un mor ddilys â'i gilydd.

Fodd bynnag, oni bai bod y penodiad yn datgan bod yn rhaid iddynt weithredu ar y cyd, mae'r drefn ddiodyn yn golygu y gall y Cynrychiolwyr wneud y penderfyniad ar y cyd neu ar wahân. Mae hyn yn golygu nad oes yn rhaid iddyn nhw gytuno, felly gall un ohonynt roi caniatâd waeth beth yw penderfyniad y cynrychiolydd arall.

Mae'n rhaid gwneud penderfyniadau ynglŷn â Rhoi Organau yn gyflym.

Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig eich bod yn rhoi rhifau ffôn i ni, yn enwedig rhifau ffonau symudol, a bod y manylion hyn yn cael eu diweddarau.

Dim ond pan fydd y ffurflen hon wedi cael ei chymeradwyo gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG y bydd manylion eich Cynrychiolydd yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr.

Nodwch fod yn rhaid i Waed a Thrawsblaniadau'r GIG, yn ôl y gyfraith, gael caniatâd gan y Cynrychiolydd i storio eu manylion ar y Gofrestr, ac er mwyn i'r penodiad hwn fod yn derfynol, mae'n rhaid i unigolyn annibynnol fod wedi tystio iddo.

Felly, er mwyn i'r ffurflen hon gael ei llenwi'n gywir, bydd yn rhaid i chi gael llofnodion y canlynol:

y Sawl sy'n Penodi

unrhyw Gynrychiolwyr

a Thyst

Os oes un o'r llofnodion hyn ar goll ar y ffurflen pan gaiff ei dychwelyd, ni fydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gallu cofnodi'ch Cynrychiolwyr Penodedig.

Mae'n rhaid i chi fod dros 18 oed i fod yn Gynrychiolydd Penodedig.

Dychweler y ffurflen wedi'i chwblhau at:

**ODR Team (Tim y Gofrestr Rhoi Organau)
NHS Blood and Transplant
Fox Den
Road, Stoke
Gifford,
Bryste BS34
8RR.**

Os oes angen cymorth neu gyngor arnoch chi wrth lenwi'r ffurflen hon, mae modd i chi gysylltu â ni drwy anfon e-bost i **odr@uktransplant.nhs.uk** neu drwy ffonio 0123 456 7890.

EICH MANYLION - Y SAWL SY'N PENODI

Adran 1

CYFENW: _____

ENW(AU) CYNTAF: _____

CYFEIRIAD: _____

TEITL: _____

COD POST: _____

DYDDIAD GENI:

RHIF FFÔN: _____

E-BOST: _____

FFÔN SYMUDOL:

Hoffwn benodi'r Person/Pobl a enwir isod i fod yn Gynrychiolwyr Penodedig i mi mewn perthynas â rhoi organau. Rwy'n deall y byddant yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â rhoi organau ar fy rhan. Rwy'n deall os yw'r sefyllfa'n codi lle gallaf roi organau, mae'n bosib y bydd yn rhaid rhannu manylion fy hanes meddygol â nhw i'w helpu nhw i wneud penderfyniad. Rwyf hefyd yn deall nad yw cyfraith yr Alban yn cydnabod Cynrychiolwyr Penodedig felly pe bawn i'n marw yn yr Alban, gofynnir i'm teulu roi caniatâd yn hytrach na'm Cynrychiolydd.

Hoffwn pe bai fy Nghynrychiolwyr Penodedig yn gwneud penderfyniad ar y cyd yn unig ynglŷn â rhoi organau

(mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw gytuno ar y penderfyniad)

Ticiwch i gadarnhau

Llofnod:

Dyddiad:

MANYLION Y CYNRYCHIOLYDD/CYNRYCHIOLWYR

Adran 2

CYNRYCHIOLYDD A

CYFENW: _____

ENW CYNTAF: _____

CYFEIRIAD: _____

TEITL: _____

COD POST: _____

DYDDIAD GENI:

RHIF FFÔN: _____

E-BOST: _____

FFÔN SYMUDOL: _____

Drwy roi fy llofnod isod, rwy'n cadarnhau fy mod yn fodlon bod yn Gynrychiolydd Penodedig ar ran y person a enwir dan Adran 1 ar y ffurflen hon mewn perthynas â rhoi organau ar ôl marwolaeth. Rwy'n cadarnhau fy mod dros 18 oed. Rwy'n rhoi caniatâd i Waed a Thrawsblaniadau'r GIG roi gwybodaeth amdanaf i ar y Gofrestr Rhoi Organau ar gyfer y pwrpas hwn. Rwy'n deall nad yw'r penodiad hwn yn ddilys dan gyfraith yr Alban.

Llofnod Cynrychiolydd A:

Dyddiad:

MANYLION Y CYNRYCHIOLYDD/CYNRYCHIOLWYR

Adran 2

CYNRYCHIOLYDD B

CYFENW: _____ ENW CYNTAF: _____

CYFEIRIAD: _____ TEITL: _____

COD POST: _____

DYDDIAD GENI: _____

RHIF FFÔN: _____ E-BOST: _____

FFÔN SYMUDOL: _____

Drwy roi fy llofnod isod, rwy'n cadarnhau fy mod yn fodlon bod yn Gynrychiolydd Penodedig ar ran y person a enwir dan Adran 1 ar y ffurflen hon mewn perthynas â rhoi organau ar ôl marwolaeth. Rwy'n cadarnhau fy mod dros 18 oed. Rwy'n rhoi caniatâd i Waed a Thrawsblaniadau'r GIG roi gwybodaeth amdanaf i ar y Gofrestr Rhoi Organau ar gyfer y pwrpas hwn. Rwy'n deall nad yw'r penodiad hwn yn ddilys dan gyfraith yr Alban.

Llofnod Cynrychiolydd B:

Dyddiad:

MANYLION Y TYST

Adran 3

Mae'n rhaid i'r penodiad hwn gael ei dystio gan barti annibynnol. Mae hyn yn golygu nad yw'r Cynrychiolwyr Penodedig na'r sawl sydd wedi'u penodi yn gallu cael eu nodi fel tystion isod.

CYFENW: _____ ENW CYNTAF: _____

CYFEIRIAD: _____ TEITL: _____

COD POST: _____

DYDDIAD GENI: _____

Datganiad tyst

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi bod yn dyst i'r ddogfen hon yn cael ei llofnodi ac mai:

- Llofnod y sawl sydd wedi penodi'r Cynrychiolwyr yw'r llofnod yn Adran 1;
- Llofnod Cynrychiolydd A yw llofnod y sawl a restrir yn yr adran ar gyfer Cynrychiolydd A, a
- Llofnod Cynrychiolydd B yw llofnod y sawl a restrir yn yr adran ar gyfer Cynrychiolydd B [rhowch linell drwy'r pwynt bwled hwn os nad oes Cynrychiolydd B].

Llofnod y tyst:

Dyddiad: